

## BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

**ADRODDIAD I:** CADEIRYDD AC AELODAU'R CYNGOR

**PWNC:** PWYLLGOR ARCHWILIO ARBENNIG - 12 MEDI 2017

**ADRODDIAD GAN:** SWYDDOG CYMORTH BUSNES DEMOCRATAIDD A CHORFFORAETHOL

---

**PRESENNOL:** Cynghorydd L. Elias (IS-GADEIRYDD YN Y GADAIR)

Cynghorwyr M. Cross  
G.A. Davies  
G.L. Davies  
P. Edwards  
S. Healy  
M. Moore  
L. Parsons  
S.C. Thomas  
H. Trollope

**GYDA:** Pennaeth Gwasanaethau Ariannol  
Pennaeth Archwilio Mewnol  
Prif Gyfrifydd Gwasanaethau Corfforaethol  
Swyddog Gwybodaeth a Llywodraethiant

**A:** Swyddfa Archwilio Cymru  
Phil Pugh  
Neall Hollis

## PENDERFYNIADAU DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

<b>EITEM</b>	<b>PWNC</b>	<b>GWEITHREDU</b>
1	<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>  Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.	

2	<p><b><u>YMDDIHEURIADAU</u></b></p> <p>Adroddwyd yr ymddiheuriadau dilynol am absenoldeb:</p> <p>Mr. Peter Williams, Cyngorwyr G. Collier, W. Hodgins a H. McCarthy, B.A. (Anrh)</p>	
3	<p><b><u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFBAU</u></b></p> <p>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant neu oddefebau.</p>	
4	<p><b><u>DATGANIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL</u></b></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol.</p> <p>Ar wahoddiad y Cadeirydd, cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol fersiwn terfynol y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ar gyfer 2016/17. Cyflwynwyd y drafft i gyfarfod blaenorol ac roedd y prif newidiadau'n ymwneud â newidiadau i'r argymhellion ar gyfer datblygu, darparu barn dan ardystiad y datganiad ac ychwanegu gwybodaeth, ar ffurf cynllun gweithredu, sy'n crynhoi cynnydd o 2015/16.</p> <p>Cyfeiriodd Aelod at dudalen 20 y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol a dywedodd mai rôl Bwrdd Rheoli'r Prosiect oedd datblygu prosiectau i'w hystyried. Fodd bynnag, caiff unrhyw benderfyniad ar y prosiectau hynny ei wneud yn ffurfiol drwy'r broses ddemocrataidd a'i bod yn bwysig fod y ddogfen yn adlewyrchu hyn.</p> <p>Cadarnhaodd y Swyddog y byddir yn derbyn y sylw a bwriedir hefyd roi tudalen ychwanegol gyda dolenni i ddogfennau allweddol.</p> <p>Mynegodd Aelod gonsyrn nad oedd y ddogfen yn cyfeirio at yr angen am dechnoleg gwybodaeth ddigonol ar gyfer Aelodau i'w galluogi i gyflawni eu rôl. Cyfeiriodd hefyd at God Ymddygiad y Cyngor a dywedodd y dylid hefyd gynnwys y cyfryngau cymdeithasol yng nghyswllt safonau ymddygiad ar gyfer Aelodau/Swyddogion.</p>	

	<p>Mewn ymateb, cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio Mewnol y byddid yn mynd i'r afael â'r mater yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad. Fodd bynnag, byddai angen ystyried technoleg gwybodaeth ddigonol ar gyfer Aelodau dan drefniadau'r Gwasanaeth Rhannu Adnoddau.</p> <p>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Archwilio yn cydnabod cynnwys yr AGS i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r materion ehangach sy'n effeithio ar y Cyngor.</p>	
5	<p><b><u>DATGANIAD CYFRIFON 2016/2017</u></b></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Cyllid.</p> <p>Ar wahoddiad y Cadeirydd, cyflwynodd y Prif Gyfrifydd Gwasanaethau Corfforaethol y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2016/17 a baratowyd yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Os caiff ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio, byddai'r Awdurdod yn rhagweld derbyn barn archwilio ddiamod wedi'i lofnodi gan yr Archwilydd Cyffredinol erbyn 30 Medi 2017 a chyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2016/17.</p> <p>Cadarnhaodd y byddai cyfnod 4 wythnos o archwilio cyhoeddus statudol ar y Cyfrifon o 24 Gorffennaf i 18 Awst 2017 a chadarnhaodd y Swyddog na dderbyniwyd unrhyw geisiadau am wybodaeth neu archwilio yn ystod y cyfnod hwnnw, ac nad oedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi codi unrhyw wrthwynebiadau. Fodd bynnag, derbyniwyd gohebiaeth ers y cyfnod o archwilio cyhoeddus oedd yn cael ei ymchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru.</p> <p>Dywedodd y Swyddog bod Llywodraeth Cymru yn cynnig newid y dyddiadau cau statudol ar gyfer cyhoeddi'r Cyfrifon o 2019 ymlaen, fodd bynnag roedd yn falch i ddweud y gwnaed cynnydd wrth gyflawni'r amserlen cam cyntaf ddechreuol ddwy flynedd cyn y gofyniad statudol arfaethedig.</p> <p>Aeth y Swyddog wedyn drwy'r goblygiadau ariannol a</p>	

amlinellir yn adran 4 yr adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo. Mae'r archwiliad o'r cyfrifon wedi arwain at un addasiad sylweddol, yn cyfeirio at ddsbarthiad blwyddyn flaenorol y grantiau a ddsbarthwyd gan yr EAS ar gyfer De Ddwyrain Cymru. Bu hefyd nifer o newidiadau i wybodaeth a gynhwysir yn y nodiadau datgelu. Fodd bynnag, yn gyffredinol ni fyddai'r newidiadau hyn yn newid y Cyfrifon yn sylweddol o gymharu â'r drafft fersiwn a ystyriodd y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2017.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog na fyddai gorddatgan tir arall yn adeiladau (£0.442m) a fanylir yn adran 4.4.1 yr adroddiad yn effeithio ar y rhaglen cyfalaf.

Dilynodd trafodaeth fer pan eglurodd y Swyddog y pwyntiau a godwyd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog a'r Adran Cyfrifeg a Chynllunio Ariannol am eu gwaith ardderchog parhaus yn paratoi'r Cyfrifon.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a, gan ystyried adroddiad yr Archwilydd Mewnol a'r adroddiad manwl a atodir, bod y Pwyllgor Archwilio yn cymeradwyo'r Cyfrifon dan awdurdod dirprwyedig y Cyngor.

6

**ARCHWILIO ADRODDIAD DATGANIADAU ARIANNOL  
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT  
2016/17**

Cyflwynwyd adroddiad Archwilwyr Allanol y Cyngor, Swyddfa Archwilo Cymru i'w ystyried.

Ar wahoddiad y Cadeirydd, cyflwynodd Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru yr adroddiad a manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i'w dîm yn neilltuol Neal Hollis am eu gwaith ar y Cyfrifon.

Aeth Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru yn fanwl drwy'r adroddiad er budd Aelodau newydd a thynnodd sylw at bwyntiau ynddo. Cadarnhaodd bod Swyddfa Archwilio Cymru

wedi derbyn y drafft ddatganiadau ariannol ar 26 Mehefin 2017 yn unol â'r amserlen a gytunwyd a bod y rhan fwyaf o'r gwaith archwilio yn awr wedi ei orffen. Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol oedd cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol, unwaith fod yr Awdurdod wedi darparu Llythyr Cynrychiolydd fel y nodir yn Atodiad 1, ac ar hyn o bryd y dyddiad arfaethedig ar gyfer llofnodi oedd 28 Medi 2017.

Cadarnhaodd bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi derbyn gohebiaeth a'i bod yn ddyletswydd ar y Swyddfa i'w ystyried. Ni fedrai drafod natur yr ohebiaeth ond cadarnhaodd y byddai'r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried unrhyw faterion cyn llofnodi'r Cyfrifon.

Dilynodd trafodaeth fer pan eglurodd Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru y pwyntiau a godwyd a

**PHENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad a chydabod yr wybodaeth ynddo.